# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 5 Tachwedd 2012** |
| Amser: | **15:30 - 17:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2012(9)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Nicola Callow, Pennaeth Cyllid (Swyddog)**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Comisiynwyr ar gofnodion 27 Medi a 22 Hydref.

Cytunodd y Comisiynwyr i ddiwygio cofnodion 12 Gorffennaf i gofnodi penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod:

Symudodd y Comisiwn i sesiwn breifat a chytuno ar gynnig gan y Prif Weithredwr ynghylch mater staffio cyfrinachol yn unol â'r Ddirprwyaeth.

## 2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2013-14

Mae cyllideb 2013-14 y Comisiwn yn nodi'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu gwaith Gwasanaethau'r Cynulliad sy'n flaenoriaeth yn ogystal â'r gyllideb sydd ei hangen i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Ers y cyfarfod diwethaf, mae cyllideb ddrafft 2013-14 y Comisiwn wedi'i osod. Ymddangosodd Angela Burns AC, Claire Clancy a Steve O'Donoghue gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 3 Hydref ac roedd adroddiad y Pwyllgor yn argymell:

- Cyhoeddi dangosyddion perfformiad blynyddol;
- Dim cynnydd i gyllidebau'r comisiwn ar ddiwedd y rhaglen fuddsoddi tair blynedd bresennol;
- Mwy o fanylion am arbedion a buddsoddiadau.

Cytunodd y Comisiynwyr ag argymhellion y Pwyllgor a chytuno i osod y Gyllideb ar 7 Tachwedd. Mae'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb wedi'i threfnu ar gyfer 14 Tachwedd.

Cytunwyd na fyddai'r papur yn cael ei gyhoeddi.

Cam i'w gymryd: Swyddogion i osod dogfen cyllideb 2013-14 gerbron y Cynulliad ar 7 Tachwedd.

## 3. Strategaeth Gwasanaethau TGCh yn y Dyfodol - Cyflwyniad gan Atos

Bydd Cytundeb Merlin, ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh i'r Cynulliad, yn dod i ben yn 2014. Mae'n ofynnol bod y Comisiwn yn hysbysu Llywodraeth Cymru ac Atos o'i benderfyniad ynghylch darparu gwasanaethau TGCh i'r Cynulliad yn y dyfodol erbyn mis Ebrill 2013. Ym mis Tachwedd 2011, cytunodd y Comisiwn i asesu dau opsiwn: ymestyn cytundeb Merlin; neu symud at ddarpariaeth fewnol gymysg.

Roedd cynrychiolwyr o Atos yn y cyfarfod i roi gwybodaeth i'r Comisiynwyr ar ddarpariaeth TGCh arfaethedig yn y dyfodol.

Cytunwyd na fyddai'r papur yn cael ei gyhoeddi oherwydd natur fasnachol ei gynnwys.

Gwnaeth y Comisiynwyr gais am ragor o gyfarfodydd i allu trafod darpariaeth gwasanaethau TGCh yn y dyfodol yn fanylach. Cynhelir y cyfarfodydd ar 12 Tachwedd a 3 Rhagfyr.

## 4. Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd unrhyw fater arall.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Tachwedd 2012**